Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

grantiau a trwyddedau
grants and licences

COETIROEDD GWELL I GYMRU
BETTER WOODLANDS FOR WALES

CYLCHLYTHYR **Rhifyn 3 Medi 2006**

Y Gweinidog yn lansio CGG yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd

Nodyn gan y Golygydd

Croeso i drydydd rhifyn Cylchlythyr CGG. Yn y rhifyn hwn fe awn ar y ffordd gyda CGG, gan roi lle blaenllaw i lansiad y cynllun grant newydd gan y gweinidog yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Edrychwn ar ddatblygiad CGG ers ei agor i gynllunwyr rheolaeth ym mis Mawrth eleni ac yn dilyn ymlaen o'n hadroddiad yng nghylchlythyr Ebrill, rydym yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi ynglŷn â Chyfrifiannell Cost Grant Gwella Coetiroedd (WIG). Rhoddwyd manylion pwysig ar gyfer cysylltu, tua diwedd y rhifyn hwn felly cadwch ati i ddarllen.

Gweinidog yn Lansio Cynllun Uchelgeisiol ac Arloesol ar gyfer Grant Coetiroedd

Wedi disgwyl eiddgar gan bawb yn y sectorau coedwigaeth, amgylchedd ac amaethyddiaeth, croesawyd lansiad cynllun grant newydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru gan aelod blaenllaw o gefn gwlad fel "y diwrnod mwyaf arwyddocaol i berchnogion coetiroedd ers cyflwyno strategaeth y coetiroedd".

Ar Ddiwrnod Coedwigaeth Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru eleni lansiwyd y cynllun - Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG), gan Carwyn Jones AC. Wrth roi anerchiad ym mhabell Conffederasiwn y Diwydiannau Coedwigaeth (ConFor) disgrifiodd Mr Jones, Gweinidog yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, y cynllun grant newydd fel un 'uchelgeisiol ac arloesol'. Wrth gyfeirio at y modd mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi gweithio ochr yn ochr â'r diwydiant coedwigaeth, y sector breifat a chyrff eraill o'r sector cyhoeddus i ddatblygu'r cynllun, fe ddisgrifiodd hyn fel 'enghraifft ragorol o lywodraeth gysylltiedig',

Aeth yn ei flaen i ddweud mai ' drwy gysylltu cymorth grant â gweithrediadau penodol bydd hyn yn sicrhau bod CGG nid yn unig yn ennyn gweithredu a chyflogaeth ond bydd hefyd yn glir iawn ynghylch yr hyn mae CGG yn ei gyflwyno. Rwy'n croesawu'r eglurder hwn ac rwy'n edrych ymlaen at weld y dystiolaeth bod y cynllun yn gwneud coetiroedd gwell i Gymru'.

Canmolwyd staff y Comisiwn, aelodau pwyllgorau llywio, a chyrff cyhoeddus amrywiol gan Gyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Ian Forshaw, am eu gwaith caled, gan ddweud mai 'canlyniad cyfraniad yr holl bobl hyn, yn cydweithio mewn partneriaeth, yw'r cynllun grant newydd hwn'.

Cynlluniwyd CGG gyda gofynion Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU (UKWAS) mewn golwg, gan ei gwneud yn haws ac yn rhatach i berchnogion coetiroedd sicrhau ardystiad petaent yn dymuno hynny. Drwy gynnig fframwaith clir o gefnogaeth a fydd yn galluogi perchnogion i wynebu'r sialensiau sydd ynghlwm wrth greu a rheoli coetiroedd cynaliadwy yn yr 21ain ganrif, rhagwelir y defnyddir CGG yn brif gynheiliad ar gyfer rheolaeth coetiroedd am flynyddoedd lawer i ddod.

Y Wobr yn mynd i'r Cynlluniwr Rheoli cyntaf i gael cynllun wedi'i gymeradwyo

Mae fersiwn interim o Gyfrifiannell Costio GGC ar gael yn awr – cysylltwch â Thîm y Gwasanaethau Technegol i gael eich copi

Cymeradwyo'r Cynllun Rheolaeth Cyntaf

Pan aeth y cylchlythyr hwn i'r wasg y tro diwethaf, dim ond 36 o gynllunwyr oedd wedi derbyn hyfforddiant swyddogol. O'r rhain, dim ond dyrnaid ohonynt aeth ymlaen i wneud cais. Ein cwestiwn wedyn oedd, "pwy fyddai'r cyntaf i gael cynllun rheolaeth wedi 'i gymeradwyo?"

Pan gyflwynwyd tystysgrif iddo yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru gan Carwyn Jones,AC, golygodd hynny mai Graham Heath oedd y perchennog coetir cyntaf i ddod â choedwig i mewn i CGG. Mae'r gweithrediadau a amlinellir yn y Cynllun Rheolaeth ar gyfer Tŷ Hen, ger Llanbedr pont Steffan, Ceredigion, yn anelu at fodloni amcanion a restrir yn y weledigaeth tymor-hir ar gyfer y safle. Y nod yw gwella bioamrywiaeth y coetir drwy drawsnewid i reolaeth gorchudd parhaus, tra'n cynhyrchu pren o ansawdd uchel.

Dywedodd Carwyn Jones ei fod yn gobeithio y byddai'r gwaith yn galluogi Mr. Heath i wneud gwelliannau i'w goetir a fyddai'n parhau am gyfnod hir, ac ar yr un pryd yn annog perchnogion coetiroedd eraill i'w ddilyn.

Cyfrifiannell Costio CGC

Bydd nifer ohonoch yn gofyn lle mae fersiwn derfynol Cyfrifiannell Costio GGC, ac yn meddwl pam bod popeth wedi tawelu. Gohiriwyd y dyddiad lansio a bennwyd ar gyfer dechrau mis Awst er mwyn caniatáu mwy o brofion. Canlyniad hyn yw mireinio'r Cyfrifiannell a fydd yn arbed amser yn y pen draw.

Dywedodd Greg Vickers, Rheolwr Gweithrediadau G&L, "Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru am i Gynllunwyr a Swyddogion Coetir allu ymddiried yn y Cyfrifiannell ac felly mae'n bwysig ein bod yn cymryd amser yn awr er mwyn sicrhau ei fod yn iawn. Mae'r gweithgor wedi gwneud gwaith rhagorol i gynhyrchu offeryn a fydd yn arbed amser i ni i gyd yn y dyfodol. Bydd Swyddogion a Chynllunwyr Coetir yn gallu cytuno ar fanyleibon gwaith ac wedyn gadael i'r Cyfrifiannell gyfrifo'r raddfa, gyda hyder. Bydd cynllunwyr yn gallu rhoi costau gwaith i rai sy'n gwneud cais, yn hyderus, a bydd Swyddogion a Chynllunwyr Coetir yn osgoi cyd-drafod maith ynghylch costau."

Mae fersiwn tros dro o'r Cyfrifiannell ar gael os oes arnoch angen bwrw ymlaen a dechrau cyfrifo costau yn awr – cysylltwch â Thîm y Gwasanaethau Technegol i gael copi. Fel arall, caiff y fersiwn derfynol ei lansio ddiwedd Medi. Sylweddola CCC bod hon yn elfen bwysig o'r cynllun newydd ac mae'n ddiolchgar i'r Cynllunwyr ac i eraill sy'n disgwyl am y Cyfrifiannell am eu hamynedd.

Ceisiadau Ecologydd Coetir

Asesir sgiliau rhai ymgeiswyr ar gyfer swyddogaeth Ecologydd Coetir, a hynny yn y maes, ym mis Medi. Rhoddwyd gwybod i'r ymgeiswyr ddiwedd y llynedd y byddai'n rhaid iddynt ddod i gyfarfod asesu. Cysylltwyd â hwy unwaith eto yn ddiweddar gan gynnig dyddiad ar gyfer yr asesiad. Os oeddech yn disgwyl cael eich gwahodd i gael eich asesu yn y maes ond nad ydych wedi derbyn gwahoddiad, cysylltwch â Rhian Corlett yn Nhîm y Gwasanaethau Technegol.

Adolygu'r Wefan

Yn ddiweddar, cwblhaodd CCC ran gyntaf yr adolygiad o adran Grantiau aThrwyddedau safle we CCC. O hyn allan, bydd y we yn ddull pwysig o roi gwybodaeth i Gynllunwyr, Arbenigwyr ac Ymgeiswyr. Nod yr adolygiad yw sicrhau bod y wefan yn darparu'r wybodaeth gywir ar ffurf briodol. Cwblheir yr adolygiad a gwneir newidiadau erbyn y Nadolig.

Derbyniwyd 96 o geisiadau gan CCC ers lansio'r drefn fis Mawrth 2006



Gobaith CCC yw cyhoeddi cynigion newydd ar gyfer cymorth grant i blannu, yn

Y newyddion diweddaraf am ddatblygiad CGG

Ers lansio'r drefn newydd ddechrau 2006, derbyniodd CCC gyfanswm o 96 o geisiadau, wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws Cymru. O'r achosion hyn, derbyniwyd 24 yn geisiadau anghyflawn, mae 53 yn y cyfnod o Baratoi'r Cynllun Cychwynnol, cyflwynwyd 2 arall i'w cymeradwyo gan y CC ac mae 1 yn disgwyl llofnod y perchennog. Ar hyn o bryd mae 2 gynllun rheoli'n cael eu paratoi, gydag 1 wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol. Hyd yn hyn, bu 3 achos caeëdig.

Ar ochr datblygiad technegol CGG, bwriedir rhyddhau'r meddalwedd pwysig nesaf ar gyfer Gwasanaeth Ar-Lein Grantiau a Thrwyddedau, ddiwedd Medi. Bydd y cam nesaf hwn yn y prosiect yn lansio y rhan honno o'r gronfa ddata a fydd, gobeithio, yn golygu y gall perchnogion neu asiantau i edrych ar eu hachos ar-lein a hyd yn oed hawlio grant. Dylai hefyd ei gwneud yn bosibl gosod yr achosion yn otomatig ar y gofrestr gyhoeddus a'i gwneud yn bosibl gwneud diwygiadau yn y dyfodol. Bydd mwy o adolygu ar y system gydol gweddill 2006.

Mae'r darn olaf bron â disgyn i'w le. Lluniwyd cynigion ar gyfer cymorth grant i blannu o'r newydd ac fe'i cyflwynir i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd i'w cymeradwyo'n derfynol yn ystod yr hydref. Ein gobaith yw gallu cyhoeddi'r rhain yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Hyfforddiant Arbenigol

Mae Asesiadau Arbenigol yn rhan annatod o ymagwedd CGG a chynhelir yr holl asesiadau gan aseswyr a hyfforddwyd yn llawn ac a gafodd eu cymeradwyo. Gwaetha'r modd, oherwydd yr angen am adnoddau ychwanegol i ddatblygu'r system, bu'n rhaid gohirio'r hyfforddiant a oedd i'w gynnal fis Awst. Y gobaith yw trefnu hyfforddiant ar gyfer mis Hydref. I gael gwybod mwy ynghylch hyfforddiant, cysylltwch ag Andrew Wright (gweler y manylion ar gyfer cysylltu, isod).

Bwriadwn gynnal cyflwyniad hanner-diwrnod i CGG ar gyfer Aseswyr nad ydynt eto wedi derbyn hyfforddiant Cynlluniwr Rheolaeth. Yna bydd angen diwrnod llawn o hyfforddiant ar bob asesiad. Bwriad y sesiynau hyfforddi yw esbonio yr hyn sy'n ofynnol gan yr aseswyr, sut i lenwi'r templedau a sut i ymwneud â'r Cynlluniwr Rheolaeth. Rhoddwn flaenoriaeth i hyfforddiant ar sail yr ymateb disgwyliedig yn CGG.

Cyflwyno CGG i Berchnogion/Asiantau

Ein nod yw cynnal gweithdy yn nes ymlaen eleni i berchnogion ac asiantau sydd am reoli eu cytundebau eu hunain. Bydd hwn yn esbonio proses CGG o lofnodi cytundebau ar-lein i hawlio grant a diwygio cytundebau. Dylai cynllunwyr roi gwybod i berchnogion am y gweithdy hwn. I gael gwybod mwy neu i gael eich cynnwys ar y rhestr ddosbarthu, cysylltwch â Sam Davies (gweler y manylion ar gyfer cysylltu, isod).

Grŵp Canolbwyntio i Randdeiliaid CGG

Yn ddiweddarach eleni, bydd Grŵp Canolbwyntio i Randdeiliaid CGG yn cael ei ffurfio. Greg Vickers fydd cadeirydd y grŵp a daw'r aelodaeth o blith amrywiaeth o bobl o'r diwydiant gan gynnwys Cynllunwyr, Arbenigwyr, Rhai yr ymgynghorwyd â hwy a staff CCC. Bydd y grŵp yn darparu adborth ar CGG ac yn cynorthwyo CCC i wneud penderfyniadau am ddyfodol y cynllun. Dosberthir mwy o fanylion am y grŵp yn fuan .

Dogfennau "Sut mae..." ar gael yn fuan i gynorthwyo â'r cwestiynau yna am CGG

Gofalwch eich bod yn cofio popeth drwy gael golwg ar adran 'Dyddiadau pwysig' ar draws y dudalen

Canllawiau

Yr wythnos hon bydd cyfres o ddogfennau 'Sut mae...' yn dechrau ymddangos. Mae'r gyntaf yny gyfres yn cynnwys 'Sut mae gofyn am gymorth', 'Sut mae llenwi cais cyntaf a 'Sut mae cwblhau Cynllun Cychwynnol'. Daw 'Sut mae cwblhau Cynllun Rheoli' ddechrau Medi.

Pwysig

Yn gynnar y flwyddyn nesaf gobeithio y bydd pecyn cyflawn o grantiau ar gael. Yn ein rhifyn nesaf, sydd i ymddangos ganol mis Hydref, ceir yr holl newyddion diweddaraf ar y datblygiad gyda hyn a chyda nifer o'r pynciau eraill a drafodwyd yn y rhifynnau hyn i gyd.

Cyngor Technegol Sydyn

Proses yw Gwybodaeth o Ffynonellau Allanol (IfES) sy'n hel gwybodaeth pan y cymeradwyir cais. Dylai'r wybodaeth a ddaw'n ôl oddi wrth y Darparwyr Gwybodaeth (DG) gael ei defnyddio gan y Cynlluniwr yn y broses gynllunio. Mae'r DG yn amrywio o gynllun i gynllun, ond gallent gynnwys Awdurdodau Lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Ymddiriedolaethau Archeolegol. Mae gan y DG ddyddiad ar gyfer anfon ateb ac os nad ydynt yn ymateb mewn pryd, yna yn y rhan fwyaf o achosion, dylai'r Cynlluniwr fynd yn ei flaen â pharatoi'r cynllun heb y sylwadau. Dylai Cynllunwyr geisio cyngor gan y Swyddog Coetiroedd os oes angen. Os teimla'r Cynlluniwr fod gwybodaeth oddi wrth y DG yn bwysig i'r cynllun, e.e. sylwadau'r Cyngor Cefn Gwlad ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODdGA), yna dylent gysylltu â 'r Gwasanaethau Technegol a gofyn iddynt fynd ar ôl y DG.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof

- Asesiadau maes ar gyfer swyddogaeth Ecolegydd Coetir – 19/20 Medi
- Hyfforddiant i Aseswyr Arbenigol – mis Hydref
- Rhyddhau'r pecyn pwysig nesaf o feddalwedd i Wasanaeth Ar-Lein Grantiau a Thrwyddedau – Medi
- Grantiau Plannu – i'w cyhoeddi ddechrau 2007
- Dyddiad Lansio Cyfrifiannell Cost GGC - diwedd Medi 2006

Manylion ar gyfer Cysylltu

- Ymholiadau cyffredinol ynghylch CGG: Ffôn 0845 604 0845 neu ewch i www.forestry.gov.uk
- Ymholiadau Technegol: E-bost bww.ts@forestry.gov.uk
- Awgrymiadau i rifynnau'r dyfodol:
- E-bost Sam.davies@forestry.gsi.gov.uk
- Ymholiadau Cyfrifiannell Cost GGC:
  E-bost wig.costings@forestry.gsi.gov.uk
- Andrew Wright – Ffôn: 01873 850060
  neu E-bost: andrew.wright@forestry.gsi.gov.uk
- Samantha Davies – Ffôn: 01873 850060
  neu E-bost: sam.davies@forestry.gsi.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales